**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-416
Ein cyf/Our ref EH/05708/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

10 Tachwedd 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr ynghylch deiseb y Gwasanaethau Trên Gogledd-De a dderbyniwyd gennyf ar 29 Hydref.

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Adran Drafnidiaeth, Network Rail a Merseytravel ar ail-sefydlu Halton Curve ac mae disgwyl i gynigion manwl fod ar gael ddechrau'r flwyddyn nesaf. Os y byddant yn cytuno ar y manylion, mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd y cynllun yn cael ei gyflawni yn ystod 2016/17 ac y bydd yn weithredol erbyn Rhagfyr 2017.

O dan y trefniant presennol, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yw'r awdurdod cyfrifol dros Fasnachfraint Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Mae'r trafdaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Drafnidiaeth i edrych ar y posibilrwydd o drosglwyddo cyfrifoldebau y masnachfraint yn parhau. Ar wahân i'n swyddogaeth o ddyfarnu'r masnachfraint nesaf, rydym am sicrhau ei fod yn arwain at wasanaethau gwell a gwerth am arian. O ran lefelau gwasanaethu, o dan yr amserlen ar gyfer caffael y masnachfraint, bydd yr Adran Drafnidiaeth yn penderfynu ar y rhain rhwng Hydref 2015 a Gwanwyn 2017. Wedi hynny, bydd y broses gaffael yn dechrau. Y disgwyl yw y caiff y masnachfraint ei dyfarnu y Gwanwyn canlynol fel bod modd dechrau'r fasnachfraint newydd ym mis Hydref 2018.

Mae'r Gwasanaeth Premier Gogledd-De i gael ei adnewyddu ym mis Mai 2015. Rwy'n ystyried opsiynau ar hyn o bryd ynghylch y gwasanaeth Express Gogledd-De a byddaf yn gwneud cyhoeddiad maes o law.